Rhif yr Ymchwil Gymdeithasol: 06/2017
Dyddiad Cyhoeddi: 01/03/2017

# Pa aelwydydd sydd fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 19)

Defnyddir canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 yma i ymchwilio i'r ffactorau sy'n gwneud aelwyd yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol. Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau, felly hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (e.e. oedran a bodlonrwydd ar fywyd) gellir archwilio'r cyswllt rhwng pob ffactor a bod mewn amddifadedd materol yn annibynnol.

## Canfyddiadau allweddol

Pan gedwir ffactorau eraill yn gyson, y rhagfynegyddion cryfaf ar gyfer bod mewn amddifadedd materol yw:

- Byw mewn tai cymdeithasol (o'i gymharu â bod yn berchen-feddianwyr);
- Bod â bodlonrwydd isel neu isel iawn ar fywyd ar y cyfan (o'i gymharu â bodlonrwydd canolig neu uchel);
- Bod wedi gwahanu neu ysgaru (o'i gymharu â bod yn briod[1] neu'n weddw);
- Bod yn 16-59 (o'i gymharu â bod yn 70+).

Roedd pobl â'r nodweddion hyn tua 10 pwynt canran yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol.

Canfu dadansoddiad manylach hefyd fod menywod â phlant yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol, yn enwedig y rhai sydd wedi ysgaru neu wahanu.

Ni chanfuom gyswllt rhwng y canlynol a bod mewn amddifadedd materol: gwlad enedigol; ethnigrwydd; crefydd; byw mewn ardal drefol neu wledig; ac ardal awdurdod lleol.

## 1. Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i bwriadu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy sefydlu saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i bennu dangosyddion

[1] Yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

cenedlaethol sy'n mesur i ba raddau y mae'r nodau llesiant yn cael eu cyrraedd. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddangosydd 19: 'y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol'.

Defnyddir Arolwg Cenedlaethol Cymru i fesur cynnydd yn erbyn llawer o'r dangosyddion cenedlaethol hyn. Arolwg wyneb yn wyneb, ar raddfa fawr sy'n casglu gwybodaeth fanwl am farn a llesiant pobl ydyw. Fe ymatebodd 14,285 o bobl i arolwg 2014-15. Mae'n darparu gwybodaeth gadarn am farn pobl ynglŷn ag ystod eang o faterion.

## 2. Diffiniad o amddifadedd materol

Ystyr amddifadedd materol yw i ba raddau y mae gan neu nad oes gan bobl bethau materol penodol. Er mwyn asesu a yw aelwyd mewn amddifadedd materol, gofynnir cyfres o gwestiynau i ymatebwyr i'r Arolwg Cenedlaethol ynghylch eu gallu i fforddio eitemau amrywiol. Ar gyfer pob cwestiwn, gall yr ymatebydd ateb:

1. mae gennym ni / mae gen i hwn;
2. fe hoffem ni / fe hoffwn i gael hwn ond dydyn ni ddim yn gallu fforddio hwn ar hyn o bryd; neu
3. nid oes angen hwn arnom ni / arnaf fi ar hyn o bryd[2].

Mae naw eitem i gyd:

1. chi (a'ch teulu/partner)[3] yn cael gwyliau oddi cartref am o leiaf un wythnos y flwyddyn, heb i chi fod yn aros gyda pherthnasau yn eu cartref?
2. A oes gennych chi (a'ch teulu/partner) ddigon o arian i gadw eich cartref mewn cyflwr addurnol da?
3. A oes gennych chi (a'ch teulu/partner) yswiriant cynnwys y cartref?
4. Ydych chi (a'ch teulu/partner) yn cynilo £10 y mis neu fwy yn rheolaidd ar gyfer diwrnodau glawog neu eich ymddeoliad?
5. Ydych chi (a'ch teulu/partner) yn newid unrhyw ddodrefn sydd wedi gwisgo?
6. Ydych chi (a'ch teulu/partner) yn newid neu'n atgyweirio nwyddau trydanol mawr, megis oergell neu beiriant golchi dillad, pan fyddant wedi torri?
7. Oes gennych chi swm bach o arian i'w wario bob wythnos arnoch chi eich hun, nid ar eich teulu?
8. Pa mor dda ydych chi am dalu eich biliau a'ch ymrwymiadau credyd ar amser ar hyn o bryd?
9. Yn y gaeaf, ydych chi'n gallu cadw'r llety hwn yn ddigon cynnes?

Rhoddir sgôr i bob aelwyd yn seiliedig ar eu hymatebion i'r cwestiynau hyn. Caiff y cwestiynau eu pwysoli gan ddefnyddio dull pwysoli ar sail nifer yr achosion. Mae hyn yn darparu ar gyfer y ffaith yr ystyrir bod peidio â meddu ar rai eitemau'n cynrychioli amddifadedd mwy difrifol na pheidio â meddu ar eitemau eraill. Mae'r raddfa amddifadedd yn amrywio o 0 i 100. Ystyrir bod aelwydydd â sgorau dros 25 mewn amddifadedd materol.
Yn 2014-15, roedd 16% o'r ymatebwyr yn cyfrif fel pobl a oedd yn byw mewn aelwydydd a oedd mewn amddifadedd materol.

---

[2] Daw cwestiynau Arolwg Cenedlaethol 2014-15 o'r Arolwg Adnoddau Teulu.
[3] Wedi'u cynnwys lle y bo'n berthnasol.

## 3. Dull o ddadansoddi

I gael dealltwriaeth glir sut y mae pob ffactor unigol yn cyfrannu at amddifadedd materol, fe ddefnyddion ni dechneg a elwir yn ddadansoddiad atchweliad. Mae dadansoddiad atchweliad yn ein galluogi i archwilio'r cysylltiadau rhwng ffactorau penodol ac amddifadedd materol.

Er enghraifft, gwyddom fod ardaloedd trefol yn cynnwys lefelau uwch o aelwydydd sydd mewn amddifadedd materol. Fodd bynnag, mae lefelau uwch o ddiweithdra yn yr ardaloedd hyn hefyd. Gall hyn ei gwneud yn anodd gwybod ai oherwydd diweithdra ynteu ai am fod rhywun yn byw mewn ardal drefol y mae mewn amddifadedd materol. Unwaith y caiff ffactorau eraill eu rheoli, gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad, mae'n amlwg nad yw byw mewn ardal drefol, ynddo'i hun, yn cynyddu'r tebygolrwydd o fod mewn amddifadedd materol. Ond, fel y gellid disgwyl o bosibl, mae diweithdra yn cynyddu'r tebygolrwydd o fod mewn amddifadedd materol, hyd yn oed pan gaiff ffactorau eraill eu hystyried.

Mae'r dadansoddiad o bob ffactor a gyflwynir isod yn rheoli ystod o ffactorau eraill, felly gall y cyswllt rhwng pob ffactor sydd o ddiddordeb gael ei ynysu a'i archwilio. Mae gan yr holl ffactorau yr adroddir arnynt isod gyswllt ystadegol arwyddocaol â bod mewn amddifadedd materol (hynny yw, rydym yn hyderus bod y canfyddiadau hyn yn gadarn ac nid wedi deillio'n syml o amrywioldeb yn amcangyfrifon yr arolwg).

Yn aml gall dadansoddiad atchweliad adnabod perthnasoedd rhwng ffactorau; fodd bynnag, ni all ddweud wrthym am achosiaeth. Er bod achosiaeth yn gymharol glir ar gyfer rhai ffactorau yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol (e.e. nid yw amddifadedd materol yn achosi newidiadau mewn rhywedd; mae rhywedd yn achosi newidiadau mewn amddifadedd materol), ar gyfer eraill mae'r berthynas rhwng achos ac effaith yn fwy niwlog (gall bodlonrwydd isel ar fywyd arwain at amddifadedd materol; gall amddifadedd materol arwain at fodlonrwydd isel ar fywyd). Felly, lle nad yw gwybodaeth flaenorol yn gwneud cyfeiriad achosiaeth yn glir rydym wedi nodi'n gyffredinol y gall achosiaeth weithio yn y naill gyfeiriad neu'r llall (neu'r ddau).

I gael disgrifiad llawn o'r modd y gwnaethom gwblhau'r dadansoddiad, gweler yr adroddiad technegol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

## 4. Prif ganfyddiadau: Rhagfynegyddion amddifadedd materol

Wrth reoli ffactorau eraill, canfuwyd fod y canlynol yn rhagfynegyddion ar gyfer bod yn aelwyd sydd mewn amddifadedd materol neu beidio[4].

### 4.1 Nodweddion aelwydydd


**Deiliadaeth:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol sydd â'r tebygolrwydd uchaf o fod mewn amddifadedd materol (0.27)[5]. Y rhai mwyaf tebygol wedyn

---

[4] Os nad yw'r barrau gwallau ar gyfer pob ymateb fel a ddangosir yn y siartiau'n gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth rhwng yr ymatebion yn arwyddocaol yn y cyfwng hyder 0.05. Cyfrifir y cyfyngau hyn ar sail amcangyfrif ar gyfer yr arolwg ac maent yn rhoi ystod y mae'r gwir werth yn debygol o fod oddi mewn iddi. Mewn 95% o samplau'r arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y 'gwir' ffigwr ar gyfer y boblogaeth gyfan. Mae hyn yn golygu y gallwn fod yn hyderus iawn bod gwahaniaeth gwirioneddol yn y boblogaeth gyffredinol – nid yw'r canfyddiad yn debygol o fod o ganlyniad i amrywioldeb yn amcangyfrifon yr arolwg.


yw’r rhai sy’n byw mewn tai rhent preifat; mae gan yr unigolion hyn debygolrwydd o  0.22. Y rhai â’r tebygolrwydd isaf o fod mewn amddifadedd materol yw’r rhai sy’n byw mewn tŷ maent yn berchen arno (0.11), fel a ddangosir yn Ffigur 1:

*Ffigur 1: Y cyswllt rhwng deiliadaeth ac amddifadedd materol*




**Plant yn yr aelwyd:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae’r rhai â phlant yn yr aelwyd yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol (0.20) na’r rhai sydd heb blant yn yr aelwyd (0.14), fel a ddangosir yn Ffigur 2:

*Ffigur 2: Y cyswllt rhwng plant yn yr aelwyd ac amddifadedd materol*




**Rhyngrwyd yn yr aelwyd:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae’r rhai sydd heb fynediad at y rhyngrwyd yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol (0.21) na’r rhai sydd â mynediad at y rhyngrwyd yn yr aelwyd (0.15), fel a ddangosir yn Ffigur 3[6].

[5] Byddai tebygolrwydd o 0 yn dynodi tebygolrwydd o 0% y byddai ymatebydd yn y grŵp yma mewn amddifadedd materol. Byddai tebygolrwydd o 1.0 yn dynodi tebygolrwydd o 100% y byddai ymatebydd yn y grŵp yma mewn amddifadedd materol.

[*] Pan gedwir  ffactorau eraill yn gyson.

[6] Gall achosiaeth weithio yn y naill gyfeiriad neu’r llall (neu’r ddau): mae peidio â bod â mynediad at y rhyngrwyd yn gallu achosi amddifadedd materol, a/neu gall amddifadedd materol achosi i aelwydydd fod heb fynediad at y rhyngrwyd.

*Ffigur 3: Y cyswllt rhwng bod â mynediad at y rhyngrwyd yn yr aelwyd ac amddifadedd materol*





## 4.2 Nodweddion ymatebwyr

Er bod y rhan fwyaf o'r cwestiynau sy'n ymwneud ag amddifadedd materol yn cael eu gofyn am yr aelwyd fel uned, mae hefyd yn ddefnyddiol ystyried demograffeg a nodweddion ymatebwyr penodol. Nid yn unig y mae o leiaf un o'r cwestiynau'n gofyn yn benodol am brofiad yr ymatebydd o amddifadedd, ond mae hefyd yn rhesymol tybio y gall nodweddion yr ymatebydd effeithio ar yr ymatebion y mae'n eu rhoi[7].

**Statws priodasol:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, y rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol yw'r rhai sydd wedi ysgaru neu wahanu (0.25)[8].

*Ffigur 4: Y cyswllt rhwng statws priodasol ac amddifadedd materol*




**Rhywedd**: Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae'r tebygolrwydd y bydd dyn mewn amddifadedd materol yn 0.14. Mae'r tebygolrwydd yn uwch i fenyw, sef 0.18[9]. Gweler Ffigur 5:

---


[7] Ar ben hynny, wrth reoli effeithiau cydadwaith, sy'n ei gwneud yn bosibl archwilio newidynnau ar lefel aelwydydd, roedd y nodweddion ar ymatebwyr a drafodwyd yn yr adran hon yn dal i fod yn rhagfynegyddion arwyddocaol ar gyfer amddifadedd materol.

[8] Tebygolrwydd o 0.24 y byddai rhywun yn y grŵp yma mewn amddifadedd materol. Wrth reoli'r ffactorau eraill, byddai tebygolrwydd o 0 yn dynodi tebygolrwydd o 0% y byddai ymatebydd yn y grŵp yma mewn amddifadedd materol. Byddai tebygolrwydd o 1.0 yn dynodi tebygolrwydd o 100% y byddai ymatebydd yn y grŵp yma mewn amddifadedd materol.

[*] Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.


[9] Gallai gwahaniaethau gael eu hachosi gan y ffyrdd y mae dynion a menywod yn meddwl am y cwestiynau.

*Ffigur 5: Y cyswllt rhwng rhywedd ac amddifadedd materol*





**Oedran:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, y grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol yw'r rhai 30 – 39 oed, gyda thebygolrwydd o 0.24. Mae'r tebygolrwydd yn gostwng ar ôl hyn, gan fod y tebygolrwydd o fod mewn amddifadedd materol ar gyfer pobl 70+ oed yn 0.05 yn unig, fel a ddangosir yn Ffigur 6:

*Ffigur 6: Y cyswllt rhwng oedran ac amddifadedd materol*




**Statws cyflogaeth:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, y rhai sy'n ddi-waith sydd â'r tebygolrwydd uchaf o fod mewn amddifadedd materol (0.22). Y rhai sydd â'r tebygolrwydd isaf o fod mewn amddifadedd materol yw'r rhai sy'n ddi-waith (0.15), fel a ddangosir yn Ffigur 7[10]:


*Ffigur 7: Y cyswllt rhwng statws cyflogaeth ac amddifadedd materol*




* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.
[10] Mae economaidd anweithgar yn cynnwys y rhai sy'n fyfyrwyr ac yn bensiynwyr.


**Anabledd:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae'r rhai sydd ag afiechyd hirdymor cyfyngol, anabledd neu eiddilwch ychydig bach yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol (0.18) fel a ddangosir yn Ffigur 8[11]:

*Ffigur 8: Y cyswllt rhwng anabledd ac amddifadedd materol*




**Cymhwyster:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, y rhai a addysgwyd i lefel gradd neu uwch sydd â'r tebygolrwydd isaf o fod mewn amddifadedd materol (0.11). Mae'r tebygolrwydd o fod mewn amddifadedd yn cynyddu wrth i'r lefel cymwysterau ostwng. Y rhai sydd â'r tebygolrwydd uchaf o fod mewn amddifadedd materol yw'r rhai heb unrhyw gymwysterau (0.21), fel a ddangosir yn Ffigur 9:

*Ffigur 9: Y cyswllt rhwng y cymhwyster uchaf ac amddifadedd materol*





**Iechyd cyffredinol:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae gan y rhai a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn 'wael' neu'n 'weddol' debygolrwydd tebyg iawn o fod mewn amddifadedd materol (0.208 a 0.205 yn y drefn honno). Mae gan y rhai a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda debygolrwydd is o fod mewn amddifadedd materol (0.14) fel a ddangosir yn Ffigur 10[12].

---

[*] Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.
[11] Er fod y barrau gwallau yn orgyffwrdd, dangosodd profion pellach fod y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol.
[12] Gall achosiaeth weithio yn y naill gyfeiriad neu'r llall (neu'r ddau): gall iechyd cyffredinol gwael achosi amddifadedd materol, a/neu gall amddifadedd materol achosi iechyd cyffredinol gwael.


*Ffigur 10: Y cyswllt rhwng iechyd cyffredinol hunangofnodedig ac amddifadedd materol*




## 4.3 Nodweddion cymdeithasol

**Bodlonrwydd ar fywyd:** Pan gedwir ffactorau eraill yn gyson, mae'r rhai a ddywedodd fod eu bodlonrwydd ar fywyd yn isel neu'n isel iawn (0.25) yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd materol na'r rhai a ddywedodd fod eu bodlonrwydd ar fywyd yn ganolig neu'n uchel (0.14), fel a ddangosir yn Ffigur 11[13].

*Ffigur 11: Y cyswllt rhwng bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan ac amddifadedd materol*




**Gorbryder:** Cafodd gorbryder ei ddadansoddi fel newidyn parhaus, gan fod ymatebwyr yn rhoi sgôr rhwng 0 a 10 i'w gorbryder yn yr arolwg. Canfuwyd fod cynnydd o un uned mewn gorbryder yn gysylltiedig â chynnydd o 0.08 o fod mewn amddifadedd materol[14].

## 4.4 Effeithiau cyfunol Rhywedd, Statws Priodasol a Phlant yn yr aelwyd

Mae menywod â phlant yn fwy tebygol o fod mewn amddifadedd na'u cymheiriaid sy'n ddynion. Menywod wedi ysgaru neu wahanu sydd â phlant yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn amddifadedd materol[15], fel a ddangosir yn Ffigur 12.


* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson

[13] Gall achosiaeth weithio yn y naill gyfeiriad neu'r llall (neu'r ddau): gall bodlonrwydd isel ar fywyd achosi amddifadedd materol, a/neu gall amddifadedd materol achosi bodlonrwydd isel ar fywyd.

[14] Eto, gall achosiaeth weithio yn y naill gyfeiriad neu'r llall.

[15] Gallai gwahaniaethau gael eu hachosi gan y ffyrdd y mae dynion a menywod yn meddwl am y cwestiynau.


*Ffigur 12: Y cyswllt rhwng y cydadwaith rhwng Rhywedd * Statws Priodasol * Plant ar amddifadedd materol*




Mae Ffigur 13 yn crynhoi cyfraniad pob ffactor at fod mewn amddifadedd materol. Y rhai mewn tai cymdeithasol sydd â'r tebygolrwydd uchaf o fod mewn amddifadedd materol, a'r nesaf yw'r rhai sydd â bodlonrwydd isel iawn neu isel ar fywyd, y rhai sydd wedi ysgaru neu wahanu ac oedran.

[*] Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

*Ffigur 13: Y tebygolrwydd o fod mewn amddifadedd materol*[16]




[16] Fel yn flaenorol, gellir defnyddio'r barrau gwallau i weld ble y ceir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ymhlith categorïau o bob newidyn: os nad yw'r barrau'n gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn wahaniaeth 'gwirioneddol'. Fodd bynnag, ni fyddai'n gywir (nac yn ystyrlon) casglu bod barrau gwallau nad ydynt yn gorgyffwrdd yn golygu bod categori o un newidyn (e.e. pobl heb anabledd) yn rhagfynegi lefel o amddifadedd sy'n arwyddocaol wahanol i gategori o newidyn arall (e.e. menywod).

## 4.5 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig ag amddifadedd materol

Ni chanfuom gyswllt rhwng y canlynol a bod mewn amddifadedd materol: gwlad enedigol; ethnigrwydd; crefydd; byw mewn ardal drefol neu wledig; ac ardal awdurdod lleol.

Mae manylion pellach o ran y modd y gwnaethom gwblhau'r dadansoddiad ar gael yn yr adroddiad technegol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Awdur yr Adroddiad:  Cathryn Knight, Prifysgol Caerdydd

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Lisa Walters
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: lisa.walters@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 6685

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol:  978-1-4734-8754-3